

# Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru Profiadau gofalwyr Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) di-dâl yng Nghymru: astudiaeth

Grwpiau ffocws a chyfweiliadau manwl a gynhelir  
gan Quality Health

Gwybodaeth am y prosiect i asiantaethau partner  
yng Nghymru

## Cyflwyniad

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn cynnal astudiaeth o anghenion a phrofiadau gofalwyr Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys arolwg/holiadur traddodiadol, ac amryw o gyfweiliadau manwl a grwpiau ffocws. Mae Quality Health, asiantaeth ymchwil gymdeithasol arbenigol, yn cynnal elfennau ymchwil meintiol ac ansoddol mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.

Y nod yn y pen draw yw trawsnewid y gydnabyddiaeth, y parch a'r gefnogaeth y mae gofalwyr di-dâl BAME yn eu cael mewn lleoliadau iechyd a gofal gymdeithasol.

Er mwyn cyrraedd cymaint o ofalwyr â phosibl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn estyn allan at fudiadau a all helpu. Nod y prosiect yw ymgysylltu â chynifer o ofalwyr â phosibl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig.

Byddem yn hynod ddiolchgar pe gallech ein helpu i ymgysylltu â gofalwyr BAME yng Nghymru mewn perthynas ag unrhyw un o'r canlynol:

- 1) Cymryd rhan mewn grŵp ffocws ar-lein (mae tâl cymhelliant o £15 ar gael ar gyfer hyn).  
Dyma'r brif flaenoriaeth.**
- 2) Cefnogi'r prosiect i brofi'r holiadur pan fydd wedi cael ei lunio (diwedd Ebrill).**
- 3) Gofyn i ofalwyr BAME lenwi'r holiadur mewn cyd-destun 'bywyd go iawn' pan fydd yn cael ei lansio ym mis Mehefin.**

## Grwpiau Ffocws

Nod elfen grŵp ffocws y prosiect hwn yw archwilio'r canlynol â nifer fach o ofalwyr BAME:

- Profiadau gofalwyr BAME ym maes iechyd a gofal gymdeithasol, ynghyd â'r mathau o bwysau maent yn eu hwynebu yn y lleoliadau hyn a'r effaith ar eu hiechyd a'u lles eu hunain.
- Awgrymiadau ar gyfer sut i wella'r ffordd y mae gofalwyr yn cael eu canfod, eu cefnogi a'u parchu mewn lleoliadau gofal iechyd.
- Archwilio sut y gall Gweithwyr Cymdeithasol gefnogi gofalwyr di-dâl yn well.
- Hefyd, profi canfyddiadau grwpiau ffocws eraill a oedd yn edrych ar faterion yn ymwneud â gofalwyr ac iechyd a gofal gymdeithasol.

Ar ran Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, mae Quality Health yn bwriadu cynnal dau neu dri o grwpiau ffocws gyda 4-8 o gyfranogwyr ym mhob un. Bydd y prosiect hwn hefyd yn ymgysylltu â gofalwyr BAME drwy gyfweiliadau manwl, a gallwn ddefnyddio'r dull hwn ar gyfer y rheini sydd â diddordeb mewn cymryd rhan ond nad ydynt ar gael ar gyfer y grŵp ffocws. Oherwydd pandemig COVID-19, bydd y grwpiau'n cael eu cynnal ar-lein, drwy gyfleuster fideo gynadleda, y gellir cael mynediad ato drwy ffôn clyfar, dyfais tabled, cyfrifiadur personol neu liniadur. Bydd gan bob grŵp uchafswm o wyth cyfranogwr.

## **Mwy am beth mae grŵp ffocws yn ei olygu**

Bydd y grŵp ffocws yn para am awr a hanner ar y mwyaf (ond yn fwy tebygol am awr) a bydd cyfranogwyr yn mynychu gyda gofalwyr di-dâl BAME eraill, a dau gynrychiolydd o Quality Health. Byddem yn ei gwneud yn glir bod Quality Health yn gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i ddarparu'r sesiynau hyn. Mae gan Quality Health brofiad a gwybodaeth heb ei ail o weithio yn y sector hwn i ddarparu grwpiau ffocws.

Bydd y sesiynau'n cael eu rheoli a'u hwyluso'n annibynnol, ac ni fydd staff iechyd na gofal cymdeithasol ffurfiol yn bresennol, felly gall y cyfranogwyr siarad yn rhydd am eu profiadau o'r gwasanaethau y maent wedi'u defnyddio. Rhoddir ar ddeall i'r cyfranogwyr bod eu cyfraniad yn ddienw ac na fydd unrhyw enwau'n cael eu priodoli i unrhyw sylwadau sy'n cael eu trosglwyddo'n ôl i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.

## **Cyfweliadau manwl**

Yn debyg i grŵp ffocws, mae cyfweliad manwl yn ceisio cael adborth mwy penodol. Mae'r cyfweliad manwl yn mynd â'r dull grŵp ffocws o gasglu adborth gam ymhellach ac yn rhoi cyfle i unigolyn siarad yn gwbl ddiennw ac ar ei gyflymder ei hun. Mae rhai unigolion yn ei chael yn haws siarad am eu profiadau fel hyn, yn hytrach na mewn fformat grŵp ffocws. Mae bwriadau'r cyfweliadau yn parhau i fod yr un fath â'r grŵp ffocws a byddant yn ceisio cael gafael ar yr un math o wybodaeth am brofiadau'r gofalwyr. Efallai y bydd cyfweliadau manwl yn gweithio'n well yng nghyswllt yr unigolion hynny nad ydynt yn teimlo mor hyderus i siarad o flaen pobl eraill, ond a fyddai'n dal yn dymuno rhannu eu barn. Bydd cyfranogwyr yn dal i gael y tâl cymhelliant o £15 am gymryd rhan mewn cyfweliad manwl.

## **Mwy am yr hyn y mae cyfweliadau manwl yn ei olygu**

Bydd y cyfweliadau'n para am oddeutu awr i awr a hanner. Mae hyn yn dibynnu'n fawr ar yr hyn sydd gan yr unigolyn i'w ddweud a pha mor siaradus ydyw. Oherwydd pandemig COVID-19, bydd cynrychiolwyr o Quality Health yn cyfweld unigolion o bell dros y ffôn neu drwy alwad fideo. Byddem yn ei gwneud yn glir bod Quality Health yn gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i gynnal y cyfweliadau hyn ac y bydd yn sgwrs gyfrinachol a diennw. Bydd hwn yn gyfweliad un i un, ac ni fydd staff iechyd na gofal cymdeithasol ffurfiol yn bresennol, felly bydd y cyfranogwyr yn gallu siarad yn rhydd am eu profiadau. Mae gan Quality Health brofiad a gwybodaeth heb ei ail o weithio yn y sector hwn i gynnal cyfweliadau o'r fath.

**Dyma awgrym o destun i roi cyhoeddusrwydd i'r cyfle hwn i'ch aelodau/defnyddwyr gwasanaeth:**

**Ydych chi'n ofalwr di-dâl yng Nghymru o gymuned lleiafrifoedd ethnig?** Byddai gennym ddi-ddordeb mewn siarad â chi am eich profiadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ynghyd â'r mathau o bwysau rydych chi'n eu hwynebu a'r effaith mae hyn yn ei chael ar eich iechyd a'ch lles.

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Quality Health, i wrando ar eich profiadau o fod yn ofalwr di-dâl yng Nghymru ac i ddeall mwy am eich profiadau. Maent yn gwneud hyn drwy grwpiau ffocws a chyfweiliadau gyda nifer fach o unigolion. Bydd y naill weithgaredd a'r llall yn cael eu cynnal yn gyfan gwbl gan Quality Health, sy'n gwmni annibynnol, ar ran Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru. Bydd unrhyw sylwadau sy'n cael eu gwneud mewn grŵp ffocws neu yn ystod cyfweiliad yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol a bydd yr adborth yn ddiennw. Ni fyddwn yn datgelu pwy ydych chi i unrhyw sefydliad. Mae tâl cymhelliant o £15 ar gael am gymryd rhan yn y sesiwn hon a bydd yn para oddeutu awr.

Os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn cymryd rhan mewn grŵp ffocws neu gael eich cyfweld, cysylltwch â **Charlie Boshier yn [Quality Health ar [Charlie.boshier@quality-health.co.uk](mailto:Charlie.boshier@quality-health.co.uk)**. Bydd eich manylion yn cael eu rhoi i gynrychiolydd o Quality Health. Os cewch eich dewis, byddant yn cysylltu â chi i wneud trefniadau ar gyfer cymryd rhan a sut i hawlio'r tâl cymhelliant.

Holiadur/Arolwg Ar-lein

Yn ogystal â'r uchod, mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn llunio nifer o gwestiynau sydd â'r nod o gasglu data meintiol am brofiadau gofalwyr BAME yng Nghymru. Bydd yr arolwg yn cael ei ddatblygu ar-lein a bydd dolen i gymryd rhan.

Bydd yr arolwg yn fyw ym mis Mehefin, a bydd eich cymorth i hyrwyddo'r ddolen i'r arolwg yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Bydd rhagor o wybodaeth am hyn ar gael maes o law.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:**

**Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru**

Kate Cubbage

[kcubbage@carers.org](mailto:kcubbage@carers.org)

Faaiza Bashir

[fbashir@carers.org](mailto:fbashir@carers.org)

**Quality Health**

Charlie Boshier

[charlie.boshier@quality-health.co.uk](mailto:charlie.boshier@quality-health.co.uk)

**CARERS  
TRUST**  
WALES

